# PENNOD 4

## Dadansoddiad a Chanlyniadau

Rhennir y dadansoddiad a chanlyniadau yn bum rhan sef:


1. gwybodaeth a gafodd y rhieni cyn i'w plant ddechrau yn yr ysgol
2. ffactorau a ddylanwadodd ar ddewis rhieni o ysgol a chyfrwng addysg
3. cefndir ieithyddol y rhieni a'u gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd
4. gwybodaeth gyffredinol ac agweddau rhieni
5. cenedl a chymwysterau rhieni

Dychwelwyd 92 (60%) o'r holiaduron a ddosbarthwyd.  Yn y rhan hon, pan gyfeirir at 'rieni', fe gyfeirir yn benodol at y 92 o rieni a fu'n rhan o'r ymchwil hwn ac nid at rieni yn gyffredinol.  Cyfeirir at rieni'r plant sy'n derbyn addysg cyfrwng-Cymraeg fel Rhieni A a chyfeirir at rieni'r plant sy'n derbyn addysg cyfrwng-Saesneg fel Rhieni B.  Lle dyfynnir atebion rhieni, fe lynir at yr iaith yr ysgrifennwyd yr ymatebion ynddi gan y teimlir bod hynny yn adlewyrchu, o bosib, ethos ac iaith y cartref.  Oni nodir yn wahanol, seilir niferoedd a chanrannau'r adroddiad hwn ar ymatebion y 92 o rieni a lenwodd holiadur.  Rhoddir y niferoedd yn gyntaf gyda chanrannau yn dilyn mewn cromfachau.

## 1. Gwybodaeth a gafodd y rhieni cyn i'w plant ddechrau yn yr ysgol

Er mwyn dysgu ar sail pa wybodaeth y dewisodd rhieni ysgol a chyfrwng addysg i'w plant, gofynnwyd iddynt a dderbyniasant wybodaeth wrth yr AALl a/neu unrhyw ffynhonnell arall ynglŷn â dewis ysgol gynradd (Cwestiynau 1a 3). Gofynnwyd iddynt hefyd nodi beth oedd y wybodaeth a dderbyniwyd (Cwestiynau 2 a 5).

**Tabl 14:** Nifer y rhieni yn ôl ysgol a dderbyniodd wybodaeth gan yr AALl ynglyn â dewis ysgol gynradd





Nododd chwech (7%) rhiant eu bod wedi derbyn gwybodaeth wrth yr AALl ar ddewis ysgol i'w plant (Tabl 14). O'r rhain, derbyniodd 4 lyfryn gwybodaeth ynglŷn ag ysgolion y sir[8], 1 wybodaeth am Fudiad Ysgolion Meithrin (MYM), ('*about Mudiad Cylch Meithrin which filtered into infants school'),* a daeth 1 o hyd i wybodaeth ei hun drwy fynd ar safle we'r Cyngor Sir. Nid yw'r Cyngor Sir yn danfon gwybodaeth at ddarpar rieni gan nad oes ganddynt fas-data o'r rhieni tan eu bod wedi cofrestru'u plant mewn ysgol. Hawdd deall, felly, mai canran isel o'r

[8] Ymddengys mai'r llyfryn 'Gwybodaeth i Rieni 2010-11' (Cyngor Sir Caerfyddirn, 2009) oedd hwn.

rhieni oedd wedi derbyn gwybodaeth wrth yr AALl cyn i'w plant ddechrau'r ysgol.

Derbyniodd 8 (9%) rhiant wybodaeth wrth 'ffynhonnell arall' (Tabl 15). Daeth 2 o hyd i wybodaeth ar y rhyngrwyd; cafodd 3 wybodaeth oddi wrth yr ysgol; cafodd 1 lyfryn oddi wrth feithrinfa, a chafodd 2 wybodaeth oddi wrth bobl eraill.

**Tabl 15:** Nifer y rhieni yn ôl ysgol a gafodd wybodaeth drwy ffynhonnell arall ynglyn â dewis ysgol gynradd





O'r pedwar ar ddeg o rieni a dderbyniodd ryw wybodaeth ar ddewis ysgol, dewisodd naw (64%) addysg cyfrwng-Cymraeg i'w plant.


Yng nghwestiynau 6 ac 8 gofynnwyd i'r rhieni nodi a dderbyniwyd gwybodaeth wrth yr AALl, neu unrhyw ffynhonnell arall ar ddewis

*cyfrwng addysg* i'w plant. Nododd 5 (5%) o rieni eu bod wedi derbyn gwybodaeth wrth yr AALl (Tabl 16), a nododd 17 (18%) eu bod wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth ffynhonnell arall (Tabl 17).

**Tabl 16:** Nifer y rhieni yn ôl ysgol a dderbyniodd wybodaeth gan yr AALl ynglyn â dewis cyfrwng addysg




**Tabl 17:** Nifer y rhieni yn ôl ysgol a dderbyniodd wybodaeth drwy ffynhonnell arall ynglyn â dewis cyfrwng addysg




O'r rhieni a gafodd wybodaeth wrth yr AALl (5), cafodd 2 'lyfryn gwybodaeth ar ddewis ysgol', 1 daflen MYM, a chafodd 1 'becyn iaith

Gymraeg'.  Ni nododd un rhiant beth oedd y wybodaeth a dderbyniwyd. Gofynnwyd i'r rhieni a dderbyniodd wybodaeth wrth ffynhonnell arall, i nodi'r ffynhonnell a beth oedd y wybodaeth honno (Tabl 18).

**Tabl 18:** Gwybodaeth (a'i ffynhonnell) a dderbyniwyd yn ôl ysgol.

| Ffynhonnell | Gwybodaeth | Ysgol / Ffrwd |
|---|---|---|
| Ffrindiau | Ni nodwyd | Ysgol A |
| Cylch Ti a Fi | Ni nodwyd | Ysgol A |
| Pennaeth | Gwybodaeth am yr ysgol | Ysgol A |
| Pennaeth | Gwybodaeth am yr ysgol | Ysgol A |
| Ymwelydd Iechyd | Pamffled TWF | Ysgol A |
| Ymwelydd Iechyd | Pamffled TWF | Ysgol A |
| TWF | Pamffled | Ysgol A |
| Grŵp cyn geni | Pamffled TWF | Ysgol A |
| Ysgol | Ni nodwyd | Ysgol B |
| Menyw mewn Meddygfa | '*How my child could go to a Welsh school even if I don't speak Welsh.'* | Ysgol B |
| Ymwelydd Iechyd | *'Booklet & discussion'* | Ysgol B |
| Ymwelydd Iechyd | Pamffledi | Ysgol Ca |
| Ymwelydd Iechyd | Pamffled TWF | Ysgol Ca |
| Pennaeth | '*Reasurance that despite English speaking family, he would be fine'* | Ysgol Ca |

| | | |
|---|---|---|
| Rhyngrwyd | Adroddiad Estyn | Ysgol Ca |
| Pennaeth | '*Benefits of a Welsh education'* | Ysgol Cb |
| Ysgol C | '*Benefits of Welsh as 1$^{st}$ language'* | Ysgol Cb |

Gwelir mai trwy'r ysgol neu ymwelydd iechyd y cafodd y mwyafrif o rieni eu gwybodaeth (11 allan o 17 sef 65%). O'r 22 o rieni a gafodd wybodaeth ar ddewis cyfrwng addysg, dewisodd 16 (73%) osod eu plant mewn ysgol / ffrwd Gymraeg.

**2. Ffactorau a ddylanwadodd ar rieni wrth ddewis ysgol**

Yng nghwestiwn 14 gofynnwyd i'r rhieni nodi eu prif reswm dros ddewis ysgol neu ffrwd. Er mwyn dadansoddi'r data, grwpiwyd y rhesymau a nodwyd o dan un o chwe phennawd sef:

I. enw da'r ysgol
II. cyfrwng yr addysg
III. lleoliad yr ysgol
IV. cysylltiad personol â'r ysgol
V. canlyniadau academaidd
VI. arall

Isod ceir sampl o'r atebion a nodwyd yn ôl categori:-

<u>Enw da'r Ysgol</u>

*'Good reputation'* (Ysgol A)

*'Ysgol ardderchog' (*Ysgol A)

*'School's reputation extremely high'* (Ysgol A)

*'Fantasic reputation'* (Ysgol B)

*'Excellent reputation'* (Ysgol Cb)

<u>Cyfrwng yr addysg</u>

'*Would like my daughter to be taught through the medium of Welsh'* (Ysgol A)

*'Ysgol cyfrwng-Cymraeg'* (Ysgol A)

*'Welsh option'* (Ysgol Ca)

*'Welsh stream'* (Ysgol Ca)

*'English Medium provision'* (Ysgol Cb)

<u>Lleoliad yr ysgol</u>

*'Ysgol Gymraeg agosaf'* (Ysgol A)

*'lleol'* (Ysgol A)

*'closest school'* (Ysgol B)

*'location'* (Ysgol B )

*'Live very close'* (Ysgol Cb)

<u>Cysylltiad personol â'r ysgol</u>

'*Cyn ddisgybl'* (*Ysgol A)*

*'fy hen ysgol i, traddodiad y teulu'* (Ysgol A)

*'I came to this school when I was younger'* (Ysgol B)

*'Older child went there'* (Ysgol Ca)

*'Family members at the school'* (Ysgol Ca)

<u>Canlyniadau Academaidd</u>

*'Good reports'* (Ysgol A)

*'Addysg ardderchog'* (Ysgol A)

*'Excellent results'* (Ysgol A)

*‘Academic achievements’* (Ysgol B)

*‘Results of inspection reports & comments’* (Ysgol Ca)

Arall

*‘Sporting success’* (Ysgol B*)*

*‘Taking children full time at 3yrs old’* (Ysgol B)

*‘Breakfast & after school club’* (Ysgol Ca)

*‘School friends living close’* (Ysgol Ca)

Oherwydd i nifer fawr o rieni nodi dau neu fwy o resymau, ac i eraill beidio â nodi un rheswm, ni ddaw’r niferoedd isod i 100%.


**Tabl 19:** Rhesymau a roddwyd dros ddewis yr ysgol neu ffrwd

| **Rheswm** | Enw da’r ysgol | Cyfrwng yr addysg | Lleoliad yr ysgol | Cysylltiad personol â’r ysgol | Canlyniadau academaidd | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 51 | 16 | 32 | 14 | 9 | 14 | 136 |
| **Canran** | 37.5 | 11.8 | 23.5 | 10.3 | 6.6 | 10.3 | 100 |

Dengys Tabl 19 niferoedd y sylwadau yn ôl rheswm. Y tri phrif reswm oedd: enw da’r ysgol - 51 (37.5%); lleoliad yr ysgol - 32 (23.5%) a cyfrwng yr addysg - 16 (11.8%).

Er mwyn dysgu a oedd gwahaniaethau rhwng ymatebion Rhieni A (cyfrwng-Cymraeg) a Rhieni B (cyfrwng-Saesneg), dengys Tabl 20 ymatebion rhieni yn ôl cyfrwng addysg eu plant.

**Tabl 20:** Rhesymau rhieni yn ôl eu dewis o gyfrwng addysg




Gwelir bod 'enw da'r ysgol', 'cyfrwng yr addysg', 'cysylltiadau personol' a 'chanlyniadau' wedi dylanwadu ar nifer uwch o Rieni A na Rhieni B. Roed 'lleoliad' wedi dylanwadu ar nifer fwy o Rieni B na Rhieni A.

Gofynnwyd i rieni nodi i ba raddau y dylanwadodd gwahanol ffactorau ar eu penderfyniad wrth ddewis ysgol i'w plant. Rhestrwyd 12 o wahanol ffactorau. Rhoddwyd cyfle i rieni nodi unrhyw ffactor/au eraill ar ddiwedd y rhestr. Seilir y canrannau yn y tablau sydd yn dilyn ar lefel y cryfder a nodwyd gan rieni ar gyfer pob ffactor. Oherwydd i nifer o rieni beidio â nodi cryfder ar gyfer pob ffactor, ni ddaw'r niferoedd yn Nhabl 21 i 100%.

**Tabl 21**: Cryfder dylanwad gwahanol ffactorau ar ddewis y rhieni o ysgol.

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Lleoliad yr ysgol | 39 | 42.9 | 27 | 29.7 | 16 | 17.6 | 2 | 2.2 | -- | -- | 7 | 7.7 |
| Canlyniadau profion athrawon | 18 | 20.2 | 29 | 32.6 | 18 | 20.2 | -- | -- | 3 | 3.4 | 21 | 23.6 |
| Adroddiad arolwg yr ysgol | 26 | 28.9 | 26 | 28.9 | 18 | 20 | 3 | 3.3 | 2 | 2.2 | 15 | 16.7 |
| Cyfrwng yr addysg | 52 | 57.1 | 23 | 25.3 | 10 | 11 | 3 | 3.3 | -- | -- | 3 | 3.3 |
| Polisi'r llywodraeth | 7 | 8 | 17 | 19.5 | 23 | 26.4 | 11 | 12.6 | 3 | 3.4 | 26 | 29.9 |
| Enw da'r ysgol | 55 | 60.4 | 27 | 29.7 | 6 | 6.6 | -- | -- | -- | -- | 3 | 3.3 |
| Ysgol Gyfun yn y dyfodol | 40 | 44.9 | 17 | 19.1 | 19 | 21.3 | 5 | 5.6 | 1 | 1.1 | 7 | 7.9 |
| Cyfleoedd allgyrsiol | 16 | 18.2 | 23 | 26.1 | 29 | 33 | 7 | 8 | 1 | 1.1 | 12 | 13.6 |
| Mynychu noson rieni cyn i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol | 15 | 16.9 | 27 | 30.3 | 21 | 23.6 | 5 | 5.6 | 1 | 1.1 | 20 | 22.5 |
| Cwrdd â Phennaeth yr ysgol cyn i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol | 28 | 30.8 | 35 | 38.5 | 16 | 17.6 | 2 | 2.2 | -- | -- | 10 | 11 |
| Dylanwad aelodau o'r teulu | 13 | 14.3 | 12 | 13.2 | 26 | 28.6 | 5 | 5.5 | 5 | 5.5 | 30 | 33 |
| Dylanwad ffrindiau | 12 | 13.2 | 15 | 16.5 | 23 | 25.3 | 11 | 12.1 | 5 | 5.5 | 25 | 27.5 |
| Arall | 4 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | --- | -- | -- | -- |

Edrychir ar bob ffactor yn ei dro.


1. Lleoliad yr ysgol


**Tabl 22:** Dylanwad lleoliad yr ysgol

| | Cryf iawn | | Cryf | | Cymedrol | | Gwan | | Gwan iawn | | Dim o gwbl | | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 9 | 27.2 | 11 | 33.3 | 8 | 24.4 | 2 | 6 | -- | -- | 3 | 9 | 1 |
| **B** | 12 | 52.2 | 5 | 21.7 | 4 | 17.3 | -- | -- | -- | -- | 2 | 8.7 | -- |
| **Ca** | 12 | 55.4 | 7 | 31.8 | 3 | 13.6 | --- | -- | -- | -- | -- | -- | -- |
| **Cb** | 6 | 46.2 | 4 | 30.8 | 1 | 7.7 | -- | -- | -- | -- | 2 | 15.4 | -- |
| **Cyf.** | 39 | 42.9 | 27 | 29.7 | 16 | 17.6 | 2 | 2.2 | -- | -- | 7 | 7.7 | |

Roedd lleoliad yr ysgol yn ffactor a ddylanwadodd yn ‘gryf iawn’ ar 9 (27.2%) o rieni Ysgol A, 12 (52.2%) o rieni Ysgol B a 18 (51.4%) o rieni Ysgol C. Yn ôl cyfrwng addysg, dylanwadodd lleoliad yr ysgol yn ‘gryf iawn’ ar 21 (38%) o Rieni A o gymharu â 18 (50%) o Rieni B.

Gofynnwyd i rieni Ysgol A ac Ysgol B nodi pellter eu cartref o’r ysgol a gofynnwyd i rieni Ysgol C nodi a oeddent yn byw yn nalgylch yr ysgol neu beidio. Roedd 26 (76%) o ddisgyblion Ysgol A a 22 (96%) o ddisgyblion ysgol B yn byw o fewn dwy filltir i’r ysgol. Roedd 8 (24%) o ddisgyblion Ysgol A ac un (4%) disgybl o Ysgol B yn byw dros ddwy filltir o’r ysgol (Tabl 23).




Roedd 19 (86%) o ddisgyblion ffrwd A a 12 (92%) o ddisgyblion ffrwd B Ysgol C yn byw yn nalgylch yr ysgol (Tabl 24). Roedd pob un o'r disgyblion oedd yn byw y tu allan i'r dalgylch yn byw o fewn pedair milltir i'r ysgol. Gwelir bod mwy o ddisgyblion ffrwd A yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o gymharu â disgyblion ffrwd B.

2. Canlyniadau Profion Athrawon


**Tabl 25:** Dylanwad canlyniadau profion athrawon

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 9 | 27.3 | 9 | 27.3 | 4 | 12.1 | -- | -- | 2 | 6 | 9 | 27.3 | 1 |
| **B** | 5 | 22.7 | 10 | 45.5 | 5 | 22.7 | -- | -- | 1 | 4.5 | 1 | 4.5 | 1 |
| **Ca** | 4 | 19 | 5 | 23.8 | 7 | 33.3 | -- | -- | -- | -- | 5 | 23.8 | 1 |
| **Cb** | -- | -- | 5 | 38.4 | 2 | 15.4 | -- | -- | -- | -- | 6 | 46.2 | -- |
| **Cyf.** | 18 | 20.2 | 29 | 32.6 | 18 | 20.2 | -- | -- | 3 | 3.4 | 21 | 23.6 | |


Er i 68 (76.4%) o rieni nodi bod canlyniadau profion athrawon wedi dylanwadu i wahanol raddau ar eu penderfyniad wrth ddewis ysgol, dim ond 27 (29%) o rieni a nododd yng Nghwestiwn 18 eu bod wedi edrych ar ganlyniadau asesiadau athrawon cyn bod eu plant yn dechrau yn yr ysgol (Siart Cylch 1). Gwelir bod mwy o Rieni A na Rhieni B wedi edrych ar ganlyniadau athrawon (19 o gymharu ag 8). O'r 27 o rieni a edrychodd ar ganlyniadau athrawon, 14 (52%) ohonynt a gymharodd y canlyniadau â chanlyniadau ysgol arall (Siart Cylch 2), 15% o'r sampl cyfan (Cwestiwn 19). Adlewyrcha hynny ganlyniadau gwaith ymchwil Adler *et al.*(1989) a ddarganfu mai rhwng 2% a 16% o rieni (gan ddibynnu ar y ddinas) oedd yn cymharu canlyniadau arholiadau cyn dewis ysgol uwchradd i'w plant.

O’r rhieni a gymharodd ganlyniadau asesiadau athrawon, dewisodd 8 (57%) osod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg.

**Siart Cylch 1:** Nifer y rhieni a edrychodd ar ganlyniadau asesiadau athrawon




**Siart Cylch 2:** Nifer y rhieni a gymharodd ganlyniadau asesiadau athrawon ysgolion gwahanol



3. Adroddiad Arolygiad

**Tabl 26:** Dylanwad adroddiad arolygiad

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 15 | 44.5 | 9 | 27.3 | 3 | 9.1 | -- | -- | 2 | 6.1 | 4 | 12.1 | 1 |
| **B** | 7 | 31.8 | 6 | 27.3 | 6 | 27.3 | 2 | 9.1 | -- | -- | 1 | 4.5 | 1 |
| **Ca** | 3 | 13.6 | 6 | 27.3 | 7 | 31.8 | 1 | 4.5 | -- | -- | 5 | 22.7 | -- |
| **Cb** | 1 | 7.7 | 5 | 38.5 | 2 | 15.4 | -- | -- | -- | -- | 5 | 38.5 | -- |
| **Cyf.** | 26 | 28.9 | 26 | 28.9 | 18 | 20 | 3 | 3.3 | 2 | 2.2 | 15 | 16.7 | |

Nododd 26 (29%) o rieni bod adroddiad arolygiad wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' arnynt wrth ddewis ysgol. O'r rhain roedd 18 (69%) yn Rhieni A a 8 (31%) yn Rhieni B. Nododd 15 (17%) na chafodd adroddiad arolwg unrhyw ddylanwad ar eu dewis o ysgol. O'r rhain roedd 9 (60%) yn Rhieni A a 6 (40%) yn Rhieni B. Mewn cyfweliad â dau o'r Penaethiaid, dywedwyd mai pobl oedd yn symud i mewn i'r ardal oedd yn dueddol o ofyn am weld adroddiad arolygiad.

4. Cyfrwng yr addysg

**Tabl 27:** Dylanwad cyfrwng yr addysg

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 29 | 85.3 | 4 | 11.8 | -- | -- | 1 | 2.9 | -- | -- | -- | -- | -- |
| **B** | 5 | 22.7 | 8 | 36.4 | 6 | 27.3 | 2 | 9.1 | -- | -- | 1 | 4.5 | 1 |
| **Ca** | 13 | 59.1 | 5 | 22.7 | 3 | 13.6 | -- | -- | -- | -- | 1 | 4.5 | -- |
| **Cb** | 5 | 38.5 | 6 | 46.2 | 1 | 7.7 | -- | -- | -- | -- | 1 | 7.7 | -- |
| **Cyf.** | 52 | 57.1 | 23 | 25.3 | 10 | 11 | 3 | 3.3 | -- | -- | 3 | 3.3 | |

Gwelir bod canran uwch o Rieni A (75%) o gymharu â Rhieni B (28%) wedi nodi ‘cyfrwng yr addysg’ fel dylanwad ‘cryf iawn’ ar eu dewis o ysgol. Nododd Pennaeth Ysgol A bod cyfrwng yr addysg yn elfen ‘*bwysig ofnadwy’* o farchnata’r ysgol.

Gofynnwyd i’r rhieni a ystyriwyd gosod eu plant mewn cyfrwng addysg gwahanol (Cwestiwn 16). Gofynnwyd i Rieni B a ystyriwyd gosod eu plant mewn ysgol/ffrwd Gymraeg a gofynnwyd i Rieni A a ystyriwyd gosod eu plant mewn ysgol/ffrwd Saesneg. Dengys Tabl 28 ymatebion rhieni yn ôl ysgol.

**Tabl 28:** Nifer y rhieni yn ôl ysgol a ystyriodd osod eu plant mewn cyfrwng addysg gwahanol.

| | **Do** | **Naddo** | **Heb ateb y cwestiwn** |
|---|---|---|---|
| **Ysgol A** | 6 (18.2%) | 27 (81.8%) | 1 |
| **Ysgol B** | 7 (30.4%) | 16 (69.6%) | -- |
| **Ysgol Ca** | 8 (36.4%) | 14 (63.6%) | -- |
| **Ysgol Cb** | 4 (30.8%) | 9 (69.2% | -- |
| **Cyfanswm** | 25 (27.5%) | 66 (72.5%) | 1 |

Gofynnwyd i'r 25 rhiant a ystyriodd gyfrwng addysg gwahanol i'w plant i esbonio pam na wnaethant osod eu plant yn y cyfrwng addysg hwnnw. Ceir sampl o'r ymatebion yn Nhabl 29:

**Tabl 29:** Rhesymau rhieni dros beidio â gosod eu plant mewn cyfrwng addysg gwahanol.

| | |
|---|---|
| **Rhieni Cyfrwng-Cymraeg** | *'I feel having another language would benefit my child in the future.'*<br><br>*'Would like my child to have the opportunity I didn't'*<br><br>*'to grow up proud of national language and Welsh heritage and culture'*<br><br>*'wanted Welsh as a first language'*<br><br>*'I felt that his options / opportunities would be broader'*<br><br>*'Better secondary school'*<br><br>*'As non-Welsh speakers we were reassured our child would have full help and support in learning Welsh'*<br><br>*'all her friends went in Welsh stream'* |
| **Rhieni Cyfrwng-Saesneg** | *'parents don't speak enough Welsh to help child'*<br><br>*'my daughter was already learning two languages, so we thought the third would be too confusing'*<br><br>*'As there is a lot of Welsh within School B'*<br><br>*'didn't think they would handle the classes and also my neglect of the language'* |

Gofynnwyd i'r rhieni eraill nodi paham nad ystyrion nhw osod eu plant mewn cyfrwng addysg gwahanol. Ceir sampl o'r ymatebion isod.

**Tabl 30:** Rhesymau rhieni dros beidio ag ystyried cyfrwng addysg gwahanol

| | |
|---|---|
| **Rhieni Cyfrwng-Cymraeg** | *'higher level of education in Welsh schools. Better opportunities for Welsh speakers'*<br><br>*'Oherwydd fy mod i'n siarad Cymraeg ac eisiau i'm plant siarad yr iaith hefyd a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg'*<br><br>*'wanted children to speak fluent Welsh'*<br><br>*'we wanted our child to speak two languages'*<br><br>*'Her future would benefit from Welsh speaking'*<br><br>*'expectation of increased job opportunities in future'*<br><br>*'better opportunities in future'*<br><br>*'Welsh is the language of the home'*<br><br>*'Cymraeg yw iaith y teulu'*<br><br>*'aelwyd uniaith Gymraeg'*<br><br>*'not interested in other schools'*<br><br>*'I wanted him to learn his countries [sic] language'* |

| | |
|---|---|
| **Rhieni Cyfrwng-Saesneg** | *'Wanted them to be proficient in English. I would not be able to help with schoolwork through the medium of Welsh in further education'*<br><br>*'Neither myself nor my husband speak Welsh'*<br><br>*'none of the family speak it'*<br><br>*'family not Welsh speaking'*<br><br>*'I couldn't help her with any reading or homework'*<br><br>*'would not be able to provide adequate support at home'*<br><br>*'nobody in the family speaks Welsh so we felt we would struggle to help them in later stages of education'*<br><br>*'will have the opportunity in comprehensive to further Welsh'*<br><br>*'they [the children] do not speak any Welsh'*<br><br>*'Coming from an entire English speaking family, would prefer my daughter to be in middle/top streams in English as opposed to bottom in Welsh'* |

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i rieni Ysgol C. Gofynnwyd i rieni plant y ffrwd Gymraeg *'Fasech chi wedi rhoi'ch plentyn yn Ysgol C petai'r ysgol ond yn cynnig addysg cyfrwng Saesneg?*' a gofynnwyd i rieni plant y ffrwd Saesneg *'Fasech chi wedi rhoi'ch plentyn yn Ysgol C petai'r ysgol ond yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg?'*. Dengys Tabl 31 ymatebion y rhieni i'r cwestiwn hwn.

**Tabl 31:** Atebion rhieni Ysgol C i Gwestiwn 29

| | **Baswn** | **Na Faswn** |
|---|---|---|
| Rhieni ffrwd A | 7 | 15 |
| Rhieni ffrwd B | 1 | 11 |

Yn Nhabl 32 ceir sampl o'r ymatebion a roddwyd gan rieni dros beidio â gosod eu plentyn yn Ysgol C petai'r ysgol nail ai yn ysgol Categori 1 neu 5 yn unig.

**Tabl 32:** Ymatebion rhieni dros beidio â gosod eu plant yn Ysgol C petai'r ysgol ond yn cynnig un cyfrwng addysg

| **Ymatebion Rhieni Ffrwd A** | **Ymatebion Rhieni Ffrwd B** |
|---|---|
| *'Welsh required'*<br><br>*'Welsh is our first language'*<br><br>*'Wanted him to learn Welsh'*<br><br>*'Welsh speaking at home'*<br><br>*'Want Welsh education for my child'* | *'We do not speak any Welsh so could not help at all with any school work'*<br><br>*'if that was the case I would have taken my child to another infants school'*<br><br>*'would not have been able to support her with any homework/coursework'*<br><br>*I would have felt detached from my child's education as I only speak English'*<br><br>*'As we do not feel it would be beneficial to speak Welsh, neither parent speaks Welsh or needs to and both have extremely successful careers!'* |

Deilliai rhesymau Rhieni A dros beidio ag ystyried gosod eu plant mewn addysg cyfrwng Saesneg o'r ffaith eu bod am i'w plant ddysgu'r Gymraeg.  Roedd mwyafrif rhesymau Rhieni B dros beidio â gosod eu plant yn Ysgol C petai yn ysgol Gategori 1 yn deillio o'r ffaith nad oeddent, fel rhieni, yn gallu siarad Cymraeg.

5. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Tabl 33:** Dylanwad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 2 | 6.3 | 6 | 18.8 | 8 | 25 | 4 | 12.5 | 2 | 6.3 | 10 | 31.3 | 2 |
| **B** | 2 | 9.1 | 5 | 22.7 | 7 | 31.8 | 4 | 18.2 | -- | -- | 4 | 18.2 | 1 |
| **Ca** | 2 | 9.5 | 3 | 14.3 | 6 | 28.6 | 2 | 9.5 | 1 | 4.8 | 7 | 33.3 | 1 |
| **Cb** | 1 | 8.3 | 3 | 25 | 2 | 16.7 | 1 | 8.3 | -- | -- | 5 | 41.7 | 1 |
| **Cyf.** | 7 | 8 | 17 | 19.5 | 23 | 26.4 | 11 | 12.6 | 3 | 3.4 | 26 | 29.9 | |

Nododd 24 (27.5%) o rieni bod polisi'r llywodraeth wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar eu penderfyniad wrth ddewis cyfrwng addysg i'w plant.  Gan gadw mewn cof mai dymuniad y llywodraeth yw *'i weld cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'* ac '...*i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog'* (LlCC, 2003: 11), disgwylir i rieni sy'n nodi bod polisi'r llywodraeth wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar eu dewis o gyfrwng addysg fod wedi gosod eu plant

mewn addysg cyfrwng-Cymraeg. Er hynny, dewisodd 11 (46%) o'r rheiny addysg cyfrwng-Saesneg i'w plant.

O'r 11 a ddewisodd gyfrwng Saesneg, roedd 5 (45%) 'ddim yn gwybod' a oedd y datganiad *'Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog'* yn wir neu'n gau ac ni wyddai 4 (36%) a oedd y datganiad '*Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru weld cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'* yn wir neu'n gau (Cwestiwn 30). Awgryma hynny na chafodd polisïau'r llywodraeth ddylanwad 'cryf iawn' na 'chryf' ar y rhieni hynny mewn gwirionedd. Credai Pennaeth Ysgol B nad oedd polisi'r llywodraeth yn cael unrhyw ddylanwad ar benderfyniad rhieni Ysgol B wrth ddewis ysgol. Nododd Pennaeth Ysgol A bod polisi'r llywodraeth yn fwy tebyg o ddylanwadu ar rieni sy'n ymwybodol o'r nodau a amlinellir yn 'Iaith Pawb' (LlCC, 2003) a phwysigrwydd cynyddol dwyieithrwydd. Rhannai Pennaeth Ysgol C yr un farn, a nododd y gallai polisi'r llywodraeth gael mwy o ddylanwad yn y dyfodol wrth i ddwyieithrwydd ddod yn elfen bwysicach mewn addysg.

6. <u>Enw da'r ysgol / ffrwd</u>

Gwelir bod 'enw da'r ysgol' wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar fwyafrif y rhieni wrth ddewis ysgol (Tabl 34).

**Tabl 34:** Dylanwad enw da'r ysgol/ffrwd

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 30 | 88.2 | 4 | 11.8 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- |
| **B** | 14 | 63.6 | 8 | 33.4 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | 1 |
| **Ca** | 8 | 36.4 | 9 | 40.9 | 5 | 22.7 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- |
| **Cb** | 3 | 23.1 | 6 | 46.2 | 1 | 7.7 | -- | -- | -- | -- | 3 | 23.1 | -- |
| **Cyf.** | 55 | 60.4 | 27 | 29.7 | 6 | 6.6 | -- | -- | -- | -- | 3 | 3.3 | |

Nododd canran uwch o rieni Ysgol A (88.2%) i 'enw da' fod yn ffactor 'cryf iawn' o gymharu ag 14 (63.6%) yn Ysgol B ac 11 (31.4%) yn Ysgol C. Nododd 3 (3.3%) rhiant na chafodd 'enw da'r ysgol' unrhyw ddylanwad.


7. Ysgol Gyfun y dyfodol

Nododd 40 (44.9%) o rieni bod ysgol gyfun y dyfodol wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' ar eu dewis o ysgol gynradd (Tabl 35). O'r rheiny, roedd 35 (88%) yn Rhieni A.

**Tabl 35:** Dylanwad ysgol gyfun y dyfodol

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 21 | 63.6 | 5 | 15.2 | 5 | 15.2 | 2 | 6.1 | -- | -- | -- | -- | 1 |
| **B** | 3 | 14.3 | 5 | 23.8 | 7 | 33.3 | 1 | 4.8 | 1 | 4.8 | 4 | 19 | 2 |
| **Ca** | 14 | 63.6 | 4 | 18.2 | 2 | 9.1 | 2 | 9.1 | -- | -- | -- | -- | -- |
| **Cb** | 2 | 15.4 | 3 | 23.1 | 5 | 38.5 | -- | -- | -- | -- | 3 | 23.1 | -- |
| **Cyf.** | 40 | 44.9 | 17 | 19.1 | 19 | 21.3 | 5 | 5.6 | 1 | 1.1 | 7 | 7.9 | |

Gofynnwyd i'r rhieni nodi pa ysgol uwchradd fyddai eu plant yn ei mynychu ym Mlwyddyn 7 (Tabl 36).



**Tabl 36: Ysgol gyfun y bwriedir ei mynychu ym Mlwyddyn 7**

Nododd 54 (96%) o Rieni A Ysgol Gyfun y Strade. Ond un o Rieni B a nododd yr ysgol honno. Nododd Pennaeth Ysgol A bod llwyddiant Ysgol Gyfun y Strade i ennill saith Gradd 1 mewn arolygiad diweddar gan Estyn wedi cael dylanwad ar ddewis rhai rhieni o ysgol a chyfrwng addysg. Yn ôl Pennaeth A, mae rhai rhieni eisiau i'w plant gael addysg

gynradd Gymraeg er mwyn i’w plant allu mynychu ysgol Gyfun y Strade yn y dyfodol.

Pymtheg (16%) o rieni yn unig oedd wedi edrych ar ganlyniadau TGAU yr ysgol uwchradd y byddai eu plant yn ei mynychu ym Mlwyddyn 7 (Cwestiwn 21). Rhieni A oedd 14 (93%) ohonynt. O’r deuddeg (75%) o rhieni a gymharodd y canlyniadau gyda chanlyniadau ysgol arall, dewisodd 11 (92%) addysg cyfrwng Cymraeg (Cwestiwn 22).

8. Cyfleoedd Allgyrsiol

Wrth ‘gyfleodd allgyrsiol’ golygwyd cyfleoedd megis cystadlu yn yr Urdd, chwarae rygbi, pêl rwyd ac ati i dimau’r ysgol, dysgu canu offeryn cerdd, chwarae yng ngherddorfa’r ysgol neu fynd i glwb megis clwb mathemateg.

**Tabl 37:** Dylanwad cyfleodd allgyrsiol

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 10 | 30.3 | 7 | 21.2 | 12 | 36.4 | -- | -- | -- | -- | 4 | 12.1 | 1 |
| **B** | 2 | 9.5 | 8 | 38.1 | 5 | 23.8 | 2 | 9.5 | -- | -- | 4 | 19 | 2 |
| **Ca** | 4 | 18.2 | 4 | 18.2 | 9 | 40.9 | 3 | 13.6 | 1 | 4.5 | 1 | 4.5 | -- |
| **Cb** | -- | -- | 4 | 33.3 | 3 | 25 | 2 | 16.7 | -- | -- | 3 | 25 | 1 |
| **Cyf.** | 16 | 18.2 | 23 | 26.1 | 29 | 33 | 7 | 8 | 1 | 1.1 | 12 | 13.6 | |

Ymddengys y gall cyfleoedd allgyrsiol ddylanwadu ar ddewis rhieni o ysgol. Esbonia un rhiant pam iddo ddewis Ysgol A dros ysgol Gymraeg arall: '*... [yr ysgol arall] yn rhi [sic] fach, hefyd doedd yna ddim yn digwydd o ran gweithgareddau cwricwlwm y tu allan i'r ysgol'*. Nododd Pennaeth A bod llwyddiannau e.e. yn Eisteddfod yr Urdd ac ar y cae chwarae yn help i farchnata'r ysgol. Yn ôl Pennaeth C, roedd rhagor a rhagor o rieni newydd yn holi beth oedd y cyfleoedd allgyrsiol a gynygid gan yr ysgol.

9. Mynychu noson rieni cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol

**Tabl 38:** Dylanwad mynychu noson rieni cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol

| | **Cryf iawn** | | **Cryf** | | **Cymedrol** | | **Gwan** | | **Gwan iawn** | | **Dim o gwbl** | | **Heb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 6 | 18.8 | 9 | 28.1 | 8 | 25 | -- | -- | -- | -- | 9 | 28.1 | 2 |
| **B** | 4 | 18.2 | 7 | 31.8 | 4 | 18.2 | 2 | 9.1 | -- | -- | 5 | 22.7 | 1 |
| **Ca** | 3 | 13.6 | 6 | 27.3 | 6 | 27.3 | 3 | 13.6 | 1 | 4.5 | 3 | 13.6 | -- |
| **Cb** | 2 | 15.4 | 5 | 38.5 | 3 | 23.1 | -- | -- | -- | -- | 3 | 23.1 | -- |
| **Cyf.** | 15 | 16.9 | 27 | 30.3 | 21 | 23.6 | 5 | 5.6 | 1 | 1.1 | 20 | 22.5 | |

Nododd 43 (47.2%) o rieni bod mynychu noson rieni cyn i'w plant ddechrau yn yr ysgol wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar eu dewis o ysgol. Beth bynnag, drwy holi'r Penaethiaid, daeth yn amlwg bod y rhieni wedi dewis ysgol cyn iddynt fynychu noson rieni. Cynhelir

noson rieni Ysgol B ar ôl i'r plant ddechrau yn yr ysgol, mae'n anhebygol felly bod mynychu'r noson rieni wedi dylanwadu ar ddewis y rhieni o ysgol.

10. Cwrdd â Phennaeth yr ysgol cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol

**Tabl 39**: Dylanwad cwrdd â'r Pennaeth

| | Cryf iawn | | Cryf | | Cymedrol | | Gwan | | Gwan iawn | | Dim o gwbl | | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 11 | 33.3 | 12 | 36.4 | 6 | 18.2 | -- | -- | -- | -- | 4 | 12.1 | 1 |
| **B** | 10 | 43.5 | 9 | 39.1 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | 4 | 17.4 | -- |
| **Ca** | 4 | 18.2 | 10 | 45.5 | 6 | 27.3 | 1 | 4.5 | -- | -- | 1 | 4.5 | -- |
| **Cb** | 3 | 23.1 | 4 | 30.8 | 4 | 30.8 | 1 | 7.7 | -- | -- | 1 | 7.7 | -- |
| **Cyf.** | 28 | 30.8 | 35 | 38.5 | 16 | 17.6 | 2 | 2.2 | -- | -- | 10 | 11 | |

Nododd mwyafrif y rhieni bod cwrdd â Phennaeth yr ysgol cyn i'w plant ddechrau yn yr ysgol wedi dylanwadu ar eu dewis, gyda 63 (69%) o rieni yn nodi 'cryf iawn' neu 'gryf'. O'r rhain roedd 37 (59%) yn Rhieni A a 26 (41%) yn Rhieni B.

## 11. Dylanwad Aelodau'r Teulu

**Tabl 40:** Dylanwad aelodau'r teulu

| | Cryf iawn | | Cryf | | Cymedrol | | Gwan | | Gwan iawn | | Dim o gwbl | | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 5 | 14.7 | 5 | 14.7 | 12 | 35.3 | 1 | 2.9 | 2 | 5.9 | 9 | 26.5 | -- |
| **B** | 4 | 18.2 | 4 | 18.2 | 5 | 22.7 | 3 | 13.6 | -- | -- | 6 | 27.3 | 1 |
| **Ca** | 4 | 18.2 | 3 | 13.6 | 6 | 27.3 | -- | -- | 2 | 9.1 | 7 | 31.8 | -- |
| **Cb** | -- | -- | -- | -- | 3 | 23.1 | 1 | 7.7 | 1 | 7.7 | 8 | 61.5 | -- |
| **Cyf.** | 13 | 14.3 | 12 | 13.2 | 26 | 28.6 | 5 | 5.5 | 5 | 5.5 | 30 | 33 | |

Cafodd y teulu ddylanwad i wahanol raddau ar 61 (67%) o rieni. Nododd 25 (27%) o rieni, gan gynnwys 17 o Rieni A, bod aelodau'r teulu wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf' ar eu dewis o ysgol. Nododd 30 (33%) na chafodd aelodau'r teulu unrhyw ddylanwad o gwbl ar eu dewis o ysgol. Ceir sampl o sylwadau yn ymwneud â'r teulu isod:-

- '*My ex partner made me!'* (Ysgol A)
- *'... my husband is a primary school teacher and was aware of School B's excellent reputation'* (Ysgol B)
- *'grandparents live close'* (Ysgol B)

12. Dylanwad Ffrindiau

**Tabl 41:** Dylanwad ffrindiau

| | Cryf iawn | | Cryf | | Cymedrol | | Gwan | | Gwan iawn | | Dim o gwbl | | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 4 | 11.8 | 5 | 14.7 | 7 | 20.6 | 6 | 17.6 | 2 | 5.9 | 10 | 29.4 | -- |
| **B** | 5 | 22.7 | 5 | 22.7 | 6 | 27.3 | 2 | 9.1 | -- | -- | 4 | 18.2 | 1 |
| **Ca** | 3 | 13.6 | 5 | 22.7 | 5 | 22.7 | 2 | 9.1 | 2 | 9.1 | 5 | 22.7 | -- |
| **Cb** | -- | -- | -- | -- | 5 | 38.5 | 1 | 7.7 | 1 | 7.7 | 6 | 46.2 | -- |
| **Cyf.** | 12 | 13.2 | 15 | 16.5 | 23 | 25.3 | 11 | 12.1 | 5 | 5.5 | 25 | 27.5 | |

Ymddengys bod ffrindiau yn gallu dylanwadu cymaint â theulu ar ddewis rhieni o ysgol i'w plant. Nododd 27 (29.7%) o rieni bod ffrindiau wedi dylanwadu'n 'gryf iawn' neu'n 'gryf'. O'r rhain roedd 17 (63%) yn Rhieni A a 10 (37%) yn Rhieni B. Dyma rai o'r sylwadau a nodwyd ynglŷn â dylanwad ffrindiau (boed yn ffrindiau'r rhieni neu'n ffrindiau'r plant);

- *'Word of mouth, knowing where friends send their children to school'* (Ysgol A)
- *'Comparisons of my fellow secondary pupils who attended School A'* (Ysgol A)
- *'all her friends went in the Welsh stream'* (Ysgol Ca)
- *'School friends living close'* (Ysgol Ca)

13. Arall

Nodwyd y ffactorau isod o dan ‘arall’


- *‘Place available for my son.’* (Ysgol A)
- *‘I myself cannot speak Welsh and I felt that if my daughter had the opportunity, it would be influential in her life’* (Ysgol A)
- *‘Taking children at 3 yrs’* (Ysgol B)

## 3. Cefndir Ieithyddol a Manteision Dwyieithrwydd

Holai rhan nesaf yr holiadur am gefndir ieithyddol y rhieni a’u gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd.


Cymraeg oedd iaith gyntaf 22 (24%) o’r rhieni, Saesneg oedd iaith gyntaf 69 (75%) ohonynt a Phwyleg oedd iaith gyntaf un (1%) rhiant (Tabl 42).

**Tabl 42**: Iaith gyntaf y rhieni yn ôl ysgol




O’r 69 o rieni oedd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, gallai 9 (13%) siarad Cymraeg yn weddol rugl (Cwestiwn 25). Roedd cyfanswm o 31 (34%), felly, o rieni yn gallu siarad Cymraeg (Tabl 43).


**Tabl 43:** Nifer rhieni, yn ôl ysgol, a allai siarad Cymraeg




Gofynnwyd i rieni beth oedd prif iaith gyfathrebu â’r plentyn gartref. Dengys Siartiau Cylch 3 a 4 ymatebion rhieni yn ôl cyfrwng addysg.


**Siart Cylch 3:** Prif iaith cyfathrebu â'r plentyn gartref (cyfrwng-Cymraeg)







Gwelir bod mwy o Rieni B (64%) yn cyfathrebu drwy'r Saesneg yn unig â'u plant o gymharu â Rhieni A (9%). Roedd 54% o blant cyfrwng-Cymraeg yn clywed Cymraeg gartref o gymharu â 8% o blant cyfrwng-Saesneg. O'r sampl, roedd 37 (40%) o rieni yn ddwyieithog, neu'n amlieithog. Dengys Tabl 44 isod yr iaith / ieithoedd, heblaw am Saesneg, a siaredir gan y rheiny.

**Tabl 44:** Ieithoedd heblaw am Saesneg a siaredir gan rieni




Er mor fychan oedd y niferoedd, yn ôl cyfrwng addysg, gwelir bod canran uwch o rieni dwyieithog neu amlieithog wedi gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg (81%) o gymharu ag addysg cyfrwng-Saesneg (19%) (Tabl 45).

**Tabl 45:** Y rhieni, yn ôl cyfrwng addysg y plant, sy'n ddwyieithog neu'n amlieithog





Gofynnwyd i'r rhieni dwyieithog/amlieithog a ddylanwadodd y ffaith eu bod nhw'n siarad mwy nag un iaith ar eu dewis o ysgol i'w plant (Cwestiwn 26). O'r 33 rhiant a atebodd y cwestiwn, cadarnhawyd

hynny gan 12 (36%) (gan ddewis addysg cyfrwng-Cymraeg ym mhob achos), tra nododd 21 (64%) na chafodd hynny ddylanwad.

Gofynnwyd i'r rhieni a gredent fod manteision i fod yn ddwyieithog. Atebodd 91 o rieni'r cwestiwn hwn, felly seilir y niferoedd yn Nhabl 46 ar ymatebion y 91 hynny. Credai'r mwyafrif bod manteision i fod yn ddwyieithog 78 (86%). Wrth edrych ar ymateb rhieni yn ôl dewis o gyfrwng addysg, roedd mwy o Rieni A na Rhieni B yn credu hynny (52 allan o 56: (93%) o gymharu â 26 allan o 36: (74%).

**Tabl 46:** Nifer, yn ôl ysgol, a gredai bod manteision i fod yn ddwyieithog





Gofynnwyd i'r rhieni nodi'r manteision honedig hynny. Er mwyn dadansoddi'r data, grwpiwyd yr atebion a gafwyd yn ôl mantais sef:

I. manteision economaidd (gwell swydd/gyrfa yn y dyfodol)
II. manteision diwylliannol
III. manteision gwybyddol neu addysgol
IV. manteision cymdeithasol

V. haws i ddysgu ieithoedd eraill


VI. Arall

Oherwydd i nifer o rieni nodi mwy nag un fantais, ni ddaw'r niferoedd isod i gyfanswm o 92 (100%) (Tabl 47).




Manteision economaidd oedd 49 (49%) o'r rhesymau a nodwyd. Awgrymai hyn bod rhieni yn fwy ymwybodol o fantesion economaidd dwyieithrwydd o gymharu â'r manteison eraill. Pan edrychir ar y rhesymau yn ôl y dewis o gyfrwng addysg, gwelir mai Rhieni A oedd wedi nodi 71% o'r manteision (Tabl 48). Awgryma hynny bod Rhieni A yn fwy ymwybodol na Rhieni B o wahanol fanteision dwyieithrwydd.

**Tabl 48:** Canfyddiad rhieni o fanteision dwyieithrwydd yn ol eu dewis o gyfrwng addysg i'w plant




Isod ceir sampl o'r atebion a nodwyd yn ôl categori:-

<u>Manteision Economaidd</u>

- *'cyfleoedd gwaith yn y dyfodol'* (Ysgol A)
- *'more job opportunities'* (Ysgol B)
- *'Being bilingual will open more doors in terms of job opportunities (in Wales!)'* (Ysgol B)
- *'better job prospects'* (Ysgol Ca)
- *'when looking for a job...'* (Ysgol Ca)

<u>Manteision diwylliannnol</u>

- *'To be proud of Welsh language and culture'* (Ysgol A )
- *'Mae'n fantais i blentyn sydd yn cael ei godi yng Nghymru i allu mwynhau diwylliant ac iaith ein cenedl. Mae hyn yn rhan fawr o etifeddiaeth ein plant'* (Ysgol A)
- *'Being bilingual will give him better appreciation of his culture; he will be able to partake in more as a result'* (Ysgol A)
- *'appreciation of different cultures, languages and world views'* (Ysgol A)

- *'It is also a part of their heritage which should be preserved'* (Ysgol A)
- *'Cultural diversity'* (Ysgol Ca)

Manteision gwybyddol ac addysgol

- *'Evidence of having a second language helps academically - stimulates the brain etc'* (Ysgol A)
- '*Higher standard of education in Welsh medium school. Higher standards of teaching...'* (Ysgol A)
- *'... We believe that children who are bilingual develop more quickly'* (Ysgol A)
- *'Good brain training - ability to process two languages'* (Ysgol Ca)
- *'Better cognitive developement'* (Ysgol Ca)
- *'more choice of comprehensive schools to go to'* (Ysgol Cb)

Manteision Cymdeithasol

- *'communicate with speakers of other languages'* (Ysgol A)
- *'... social integration'* (Ysgol A)
- '*better social ... opportunities in Wales*' (Ysgol Ca)

Haws i ddysgu ieithoedd eraill

- *'I know that children who are bilingual at a young age are better able to learn other languages when they are older*.' (Ysgol A)
- *'Encourage and help with other languages, music and maths.'* (Ysgol Ca)
- *'easier to learn additional languages'* (Ysgol Ca )
- *'Easier to learn other languages at GCSE level'* (Ysgol Cb)

- *'better development at languages'* (Ysgol Cb)

<u>Arall</u>

- *'More respect from people living in other parts of the UK and rest of the world for being able to speak our native language'* (Ysgol A)
- *'Taking advantage of the opportunity to become bilingual - something we didn't have when we were in school'* (Ysgol A)
- *'more well rounded individual'* (Ysgol B)
- *'Bring native tongue back into Wales'* (Ysgol Ca)

## 4. <u>Gwybodaeth Gyffredinol ac Agweddau Rhieni</u>

Yn rhan nesaf yr holiadur gofynnwyd i rieni nodi a oeddent yn credu bod pedwar datganiad yn wir neu'n gau (Cwestiwn 30).


Dim ond 44 (48%) o'r rhieni a nododd bod Datganiad 1 yn wir, sef, '*Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog'*. O'r rheiny roedd 29 (66%) yn Rhieni A. O'r rhieni (74) a nododd bod Datganiad 3 yn wir, sef '*Dymuna Llywodraeth Cynulliad Cymru weld cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg'*, Rhieni A oedd 46 (62%) ohonynt. Ymddengys bod Rhieni A yn fwy ymwybodol na Rhieni B o bolisi iaith Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y ddau ddatganiad arall oedd:

a. *'Mae'r holl ysgolion yng Nghymru yn galluogi disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg cwbl rugl.'* (Datganiad 2, Cwestiwn 30) (Tabl 49)


b. *'Yn 2009 addysgwyd Cymraeg fel iaith gyntaf i tua 20% o blant mewn ysgolion cynradd a gynhelir.'* (Datganiad 4, Cwestiwn 30) (Tabl 50).

**Tabl 49:** Ymatebion Rhieni A a Rhieni B i Ddatganiad 2




Nododd 44 (79%) o Rieni A bod Datganiad 2 yn gau o gymharu â 21 (58%) o Rieni B. Credai 11 (12%) o rieni bod y datganiad yn wir a nododd 16 (17%) eu bod 'ddim yn gwybod'. Nid oedd y datganiad hwn yn wir.

Nid oedd mwyafrif y rhieni, 52 (57%), yn gwybod a oedd Datganiad 4 yn wir neu'n gau. Credai 28 (30%) rhiant ei fod yn wir a 12 (13%) ei fod yn gau. Roedd Datganiad 4 yn wir.




Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r ddau osodiad yn Nhabl 51 isod. Seilir y canrannau isod ar lefelau'r cryfder a nodwyd.

**Tabl 51:** Ymatebion rhieni, yn ôl cryfder, i Gwestiwn 31

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** | **Neb nodi** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hoffwn i'm plentyn allu siarad Cymraeg yn rhugl | 52 (58%) | 19 (21%) | 17 (19%) | 2 (2%) | -- | 2 |
| Dylai pob plentyn adael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg gwaeth pa ysgol y mynycha | 11 (12%) | 23 (25%) | 35 (38%) | 21 (23%) | 1 (1%) | 1 |

Dengys Tablau 52 a 53 yr ymatebion yn ôl ysgol.

**Tabl 52:** Yr ymateb i'r gosodiad: Hoffwn i'm plentyn allu siarad Cymraeg yn rhugl

| | Cytuno'n gryf | | Cytuno | | Ddim yn cytuno nac anghytuno | | Anghytuno | | Anghytuno'n gryf | | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 33 | 100 | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | 1 |
| **B** | 2 | 9 | 11 | 50 | 8 | 36.4 | 1 | 4.5 | -- | -- | 1 |
| **Ca** | 16 | 72.7 | 5 | 22.7 | 1 | 4.5 | -- | -- | -- | -- | -- |
| **Cb** | 1 | 7.7 | 3 | 23.1 | 8 | 61.5 | 1 | 7.7 | -- | -- | -- |
| **Cyf.** | 52 | 57.7 | 19 | 21.1 | 17 | 18.8 | 2 | 2.2 | -- | -- | |

Gan mai addysg cyfrwng-Cymraeg sy'n creu siaradwyr Cymraeg rhugl, disgwylir y byddai rhieni a oedd yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' â'r datganiad uchod fod wedi gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Cymraeg. Er hynny, o'r 71 (79%) o rieni a 'gytunai'n gryf' neu a 'gytunai' â'r datganiad, roedd 17 (24%) wedi gosod eu plant mewn addysg cyfrwng-Saesneg. Codwyd y ffaith gyda'r Pennaeth bod 59% o rieni Ysgol B, am i'w plant siarad Cymraeg yn rhugl. Yn ôl yr hyn a drafodwyd mewn cyfweliad gyda Phennaeth Ysgol B nid oedd o'r farn y gallai darpariaeth ieithyddol y model hwnnw gyflawni hynny. Yn ôl y Pennaeth hwnnw, pe bai rhieni yn sôn wrtho am eu hawydd i'w plant fod yn rhugl yn y Gymraeg fe'u cyfeiriai at Ysgol A.

**Tabl 53:** Yr ymateb i'r gosodiad: Dylai pob plentyn adael yr ysgol yn rhugl yn y Gymraeg gwaeth pa ysgol y mynycha.


| | Cytuno'n gryf | | Cytuno | | Ddim yn cytuno nac anghytuno | | Anghytuno | | Anghytuno'n gryf | | Heb nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. | % | Nif. |
| **A** | 3 | 9 | 6 | 18.2 | 15 | 45.5 | 9 | 27.3 | -- | -- | 1 |
| **B** | 2 | 8.7 | 11 | 47.8 | 7 | 30.4 | 3 | 13 | -- | -- | -- |
| **Ca** | 5 | 22.7 | 5 | 22.7 | 8 | 36.4 | 4 | 18.2 | -- | -- | -- |
| **Cb** | 1 | 7.7 | 1 | 7.7 | 5 | 38.5 | 5 | 38.5 | 1 | 7.7 | -- |
| **Cyf.** | 11 | 12.2 | 23 | 25.3 | 35 | 38.5 | 21 | 23.1 | 1 | 1.1 | |

Roedd canran uwch o Rieni B (42%) yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' â'r datganiad hwn o gymharu â chanran Rhieni A (36%). Cyfeiria Lewis (1999) at y modd y gwahaniaetha Kogan (1975) rhwng grwpiau gwrthdystiol 'adrannol' a grwpiau gwrthdystiol 'hyrwyddol'. Tra y gweithreda'r naill dros achos sydd o fudd i gymdeithas gyfan, gweithreda'r llall ar sail lles a budd personol. Ymddengys bod y galw am addysg Gymraeg yn yr achos hwn yn adlewyrchu agwedd 'hunanol' adrannol a bod anghenion ieithyddol disgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu hanwybyddu gan fwyafrif Rhieni A.

## 4. Cenedligrwydd a chymwysterau'r rhieni

Mewn ymateb i gwestiwn 32 yr holiadur, ystyriai 10 (11%) o'r rhieni eu hunain yn 'Seisnig', 1 (1%) ei hun yn 'Wyddelig', 75 (82%) eu hunain yn 'Gymreig' a 6 (7%) eu hunain yn 'arall'. Ystyriai'r pedwar (67%) o'r

rhieni a nododd 'arall' eu hunain yn 'Brydeinig' ac un (33%) yn Bwylaidd.   Dengys Tabl 54 genedligrwydd y rhieni yn ôl ysgol.




Roedd gan fwyafrif y rhieni, 89 (97%), gymhwyster academaidd.  Tri rhiant (3%) oedd heb unrhyw gymhwyster academaidd.  Gwelir yn Nhabl 55 isod bod gan nifer uwch o Rieni A radd gyntaf neu gymhwyster ôl radd (30; 53.5%) o gymharu â Rhieni B (11; 30.6%).

**Tabl 55:** Cymwyster academaidd uchaf rhieni

| | Rhieni A | Rhieni B |
|---|---|---|
| **Dim Cymwysterau** | 1 (1.8%) | 2 (5.6%) |
| **1+ lefel O/TGAU/CSE unrhyw radd** | 2 (3.6%) | 3 (8.3%) |
| **5+ lefel O/TGAU (A-C)/CSE (gradd 1)** | 6 (10.7%) | 5 (13.9%) |
| **1+ lefel A/lefel UG** | 4 (7.1%) | 1 (2.8%) |
| **2+ lefel A/4+ lefel UG** | 4 (7.1%) | 3 (8.3%) |
| **NVQ lefel 1, GNVQ sylfaen** | ------- | -------- |
| **NVQ lefel 2, GNVQ canolradd** | 1 (1.8%) | 1 (2.8%) |
| **NVQ lefel 3, GNVQ uwch** | 2 (3.6%) | 4 (11.1%) |
| **NVQ lefel 4, HNC, HND** | 5 (8.9%) | 1 (2.8%) |
| **Gradd 1af** | 18 (32.1%) | 5 (13.9%) |
| **Cymhwyster ôl radd** | 12 (21.4%) | 6 (16.7%) |
| **Cymhwyster arall** | 1 (1.8%) | 5 (13.9%) |
| **Cyfanswm** | 56 (100%) | 36 (100%) |

**Sylwadau Ychwanegol**

Rhoddwyd cyfle i rieni nodi unrhyw sylwadau ychwanegol ar ddiwedd yr holiadur. Nodwyd y sylwadau canlynol;

1. *'I'd rather my children be taught at a bi-lingual school rather than be too restricted to just one language' (*Ysgol B)

2. '*I believe that the Welsh Assembly Government has a totally unrealistic view of what schools are able to achieve in terms of bilingualism especially in the foundation phase. The reality is that many pupils are entering schools with poor oral skills and understanding of the world around them. Our priority should be to raise literacy standards in English and not confuse them with a total bilingual approach'.* (Ysgol B)